oedd James Wilmot Rees wrthi'n argraffu **Yr Aelwyd,** dilyniant neu olynydd **Charles o'r Bala,** erbyn Chwefror 1860. James Evans a "Gwyneddon" oedd y cyhoeddwyr unwaith eto gyda "Gwyneddon" yn golygu hefyd. "At wasanaeth Crefydd, Llenyddiaeth, Ac Addysg" y bwriadwyd **Yr Aelwyd,** fe barhaodd i wasanaethu'r rhain hyd ddiwedd y flwyddyn.

Ac ar ôl yr ensyniadau am ffafrio'r Hen Gorff a fu'n troelli o gwmpas gwely angau **Charles o'r Bala,** 'doedd y perchnogion y tro hwn ddim am oddef i unrhyw "shiboleth enwadol lychwino ei dudalenau", (**Yr Aelwyd,** y gyfrol, iii).

Daeth hwn eto i ben gyda sylwadau trwynsur y cyhoeddwyr bod y rhesymau am ei dranc "o natur rhy gyfrinachol.... i'r darllenydd ei wybod ar hyn o bryd", (ib, iv).

Mae'n debyg y gellir sbecian tu ôl i'r llenni ac awgrymu bod gan James Evans ormod o waith yn golygu'r **Herald Cymraeg** carlamus i'w ryddhau ar gyfer gofalu am **Yr Aelwyd,** a bod yr un peth yn union yn wir am "Wyneddon", gan ei fod yntau'n ennill ei fara fel gohebydd y *North Wales Chronicle* ym Manogr.

Y mae yna reswm arall posibl am ddiflaniad **Yr Aelwyd** sef ymadawiad yr argraffydd James Wilmot Rees â Chaernarfon a chychwyniad ei ail dymor yng Nghasnewydd. Bu hwn yn dymor helbulus iawn.

* * *

YNG Nghasnewydd yr oedd Thomas Williams, cyfaill a chyn gydweithiwr â James Wilmot Rees yn Swyddfa'r **Herald,** wedi dechrau ar yrfa yn gyhoeddwr ac argraffydd yr wythnosolyn *The Star of Gwent* ar 25 Mehefin 1859.

Y mae'n dra thebyg bod y ddau ohonyn nhw wedi troi tua Chasnewydd yn wreiddiol ar gyfer lansio *The Newport Gazette* ddwy flynedd ynghynt. Roedd Swyddfa'r *Star of Gwent* yn Commercial Street, Casnewydd, gyda Swyddfa arall yn 81, Heol y Santes Fair, Caerdydd. Dyma ddwy stryd bwysig yn hanes y ddau le, (ibid, 25.6.1859, 10)

Ganwyd Thomas Williams yn Nhremadog, a phriododd yng Nghaernarfon ag Eleanor Corral, merch hynaf William Powers Smith, gohebydd rhyfygus a rhagorol y *Caernarvon and Denbigh Herald.* Roedd y *Star of Gwent* wedi'i sefydlu'n wreiddiol yn Awst 1852, a daeth yn gyhoeddiad pwysig yn ne Mynwy.

Yn anffodus fe gyhoeddodd Thomas Williams ddeunydd athrodus yn y papur yn Chwefror 1860, a bu achos cyfreithiol yn Llys Henffordd. Collodd yr achos yno, ac aeth ag apêl ymlaen at Lys Mainc y Frenhines yn Westminster o flaen yr Arglwydd Brif Farnwr a thri barnwr arall, yn Nhachwedd yr un flwyddyn. Collodd yr apêl hefyd.

Yn sydyn yr oedd ganddo ddyled o ddau gant o bunnau i'w thalu. Mae'n debyg i James Wilmot Rees, gydag arian busnes **Yr Herald** y tu cefn iddo, achub Thomas Williams o'r pydew.

* * *

ERBYN Tachwedd 17 yr oedd enw James Wilmot Rees yn ymddangos fel argraffydd a pherchennog y *Star of Gwent,* ac yr oedd wedi cartrefu yn Stryd y Dociau yng Nghasnewydd (ibid, 17.11.1860, 8). Ymddengys hefyd bod Thomas Williams yn parhau'n gyd-berchennog gyda'i gyfaill, (ibid, 29.12.1860, atodiad), arwydd efallai o ysbryd hael y Reesiaid.

Symudwyd y busnes i Caxton Place yn y dref erbyn Mawrth 1862, ac yn sicr bu cyfraniad James Wilmot Rees yn greiddiol hollol ym mharhâd y *Star of Gwent* yn ystod argyfwng yr athrod.

Erbyn diwedd 1863 fe ymddengys iddo gredu bod busnes Thomas Williams yn ddiogel, oherwydd yn rhifyn 24 Rhagfyr y flwyddyn honno dim ond ei enw ef sy'n ymddangos fel argraffydd a chyhoeddwr.

Daeth profedigaeth i ran Thomas Williams yn Hydref 1864 pan fu farw ei wraig. Priododd ef wedyn ag Eliza Mary, ail ferch William Powers Smith yn Nhachwedd 1866, ac erbyn y mis Mawrth canlynol yr oedd Thomas Williams wedi dechrau cyhoeddi **Y Glorian** lenyddol a hynod. Cyhoeddwyd y papur hwn ganddo o 2 Mawrth 1867 hyd 27 Gorffennaf yr un flwyddyn.

Bu Thomas Williams farw yn bedair a deugain oed ar 17 Mehefin 1875. Fe barhaodd ei weddw i argraffu ac i gyhoeddi y *Star of Gwent* ar ei ôl, a chychwynnodd hi bapur newydd arall yng Nghasnewydd ar 10 Tachwedd 1877, o dan y teitl hudolus *The Evening Star of Gwent.*

*Ond bu Eliza Mary Williams hithau farw'n frawychus o sydyn y mis canlynol gan adael dwy ferch fach amddifad, (Monmouthshire Merlin,* 18.2.1875, 2. *The Evening Star of Gwent,* 10.11.1877, 8; 24.12. 1877, 3.)

* * *

YN YR argyfwng ofnadwy hwn yng Nghasnewydd fe welwyd teulu James Rees yn talu cymwynas arall i'r aelwyd drasig yng Nghasnewydd. James Rees, yn ôl ewyllys Eliza Mary Williams, oedd un o'r ysgutorion oedd â'r gofal ganddynt am y genethod bach, a hawdd credu iddo ef ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn gyda'i drylwyredd addfwyn arferol.

Yn ôl i Gaernarfon, ac i swyddfa'i dad y daeth James Wilmot Rees ar ôl ei lafur yng Nghasnewydd. Bu'n golygu'r *Caernarvon and Denbigh Herald,* yn unol â'r patrwm arferol ymysg y meibion, am dymor byr yn 1868. Ond yna, daeth trychineb arall, a James Wilmot Rees yntau'n marw yn ddeuddeg ar hugain oed ar 12 Ionawr 1869.

Fel Llywarch Hen, yr oedd James Rees erbyn hyn yn hen ŵr blinedig a dolurus, "a henaint a phenllwydni wedi ei oddiwes", fel y dywedodd wrth drosglwyddo awenau'r **Herald** Saesneg i'w feibion a'u partneriaid hwy yn 1870.

Dau yn unig o'r hogiau oedd ar ôl erbyn hyn, a gwelsom i Thomas Llewelyn Rees farw ymhen chwe blynedd. Erbyn hynny yr oedd yr olaf o'r meibion, Charles Herbert Rees, wedi colli pob diddordeb yn swyddfa'r **Herald** a byd y papurau newydd.

Bu'r tad farw yng Nghaernarfon ar y dydd hwyaf yn y flwyddyn 1880.

## D.TECWYN LLOYD yn hel straeon

# RHAI O'R HEN RYFEDDODAU

UN O straeon D Myrddin Lloyd gynt yw hon:

Rywdro yn ystod y rhyfel diwethaf (1939-45), bu farw Cymro genedigol o Sir Gaerfyrddin yn un o daleithiau America. Gyn gadael y fuchedd hon, yr oedd wedi dymuno i'w lwch gael ei anfon yn ôl i'w daenellu ar un o gaeau fferm ei hen gartref.

Trefnwyd hynny, ond clywsai ei wraig a'i blant fod llawer o fwydydd yn brin ym Mhrydain oherwydd y Rhyfel ac felly, gwnaethant barsel helaeth o nwyddau bwytadwy i'w hanfon gyda'r llwch ac anfon llythyr ar wahân i'r parsel, i esbonio dymuniad yr ymadawedig.

Trwy ryw amryfusedd, cyrhaeddodd y parsel yn ddiogel, ond nid y llythyr.

Ymhen rhai wythnosau, derbyniodd y teulu yn America lythyr o sir Gâr i ddiolch am gynnwys y parsel, – y cig a ffrwythau tun, spam, etc: 'Dim ond un peth oedd yn siomedig', ebe'r llythyr, 'sef y coffi. Nid oedd ganddo liw na blas coffi er gwaetha'r enw digon cymeradwy oedd ar y tun lle lapiwyd ef'.

* * *

'DYNA'R stori. Annhebygol? Ie, ond nid amhosibl fel y dengys hanes yr hyn a ddigwyddodd i'r awdur M.P. Shiel (1865-1947). Llenor anghofiedig yw Shiel erbyn heddiw ond yn ei ddydd, cafodd ei nofelau ganmoliaeth eithafol gan adolygwyr. *'Time will prove him to be perhaps the greatest writer of English the world has ever known'* ebe rhyw Reynolds Morse, a chafodd eirda uchel gan awduron hysbys fel Rebecca West a Hugh Walpole. Dyna werth gair adolygwyr!

Ni allwn yma sôn am ei waith a'i fywyd; digon yw dweud fod troeon ei yrfa wedi bod cyn odied â llawer peth yn ei nofelau. Ar ôl ei gorfflosgi yng nghrematoriwm Golders Green, cymerwyd gofal o'i lwch gan y bardd John Gawsworth ac yn union ar ôl derbyn y llwch aeth hwnnw a gwraig Shiel i gael llymaid mewn tafarn gerllaw.

Rhoes y barmon barsel y llwch ar silff i'w gadw'n ddiogel. Dyma sut y bu wedyn.

Ar y pryd, 'roedd y barmon yn paratoi sangwij samon i James Agate, y beirniad drama enwog, pan sylwodd Gawsworth, er ei fraw, fod peth llwch yn dihidlo o'r parsel i'r sangwij! Cyn iddo fedru dweud dim, 'roedd honno ar blât Agate.

Cododd Gawsworth i gipio'r parsel oddi ar y silff, ac meddai wrth Agate, 'Ddyn! rydych newydd fwyta rhan o M.P. Shiel!' Nid oedd Agate yn gwenu.

Ond fel petai hyn ddim yn ddigon, nid dyma ddiwedd yr hanes. Penderfynodd Gawsworth gadw'r llwch o hynny allan ar ei silff ben tân mewn tun te pres. Tua diwedd 1960, bu'n rhaid iddo symud o'i dŷ am fod y perchennog wedi ei werthu.

Daeth amryw o'i ffrindiau i'w helpu gyda'r mudo, ac ynystod y gwaith cymerwyd hoe fach i gael cwpanaid o de. Digwyddodd yr anorfod.

Dyma rywun yn llwytho'r tebot efo cynnwys y tun pres a'i fwydo ac nid cyn bod pawb wedi llyncu ei siâr y deallwyd eu bod wedi yfed y rhan fwyaf o'r awdur M.P. Shiel!

O.N. Mi allwn innau adrodd stori ryfedd arall o sir Gâr am lwch un ymadawedig, ond nid y tro hwn. Am fwy o fanylion ynghylch M.P. Shiel, gw. A.B.M.R. Mehefin 1948, tt. 218-24.